Ysgol Gymraeg Trefynwy

Llawlyfr Ysgol 2025-2026

2025-2026 School Prospectus

Ysgol Gymraeg Trefynwy

Heol Rockfield

Trefynwy

NP25 5BA

Ffôn/Phone: 01600 738103

E-bost/E-mail: ysgolgymraegtrefynwy@monmouthshireschools.wales

Gwefan/Website- www.ysgolgymraegtrefynwy.cymru

Pennaeth/Headteacher:

Mrs K Matthews

Cadeirydd y Llywodraethwyr/Chairperson of Governors:

Mr T Thomas

Mae rhestr staff a llywodraethwyr yr ysgol ar gael i unrhyw rieni sy'n dymuno ei weld.

A list of the staff and members of the Governing Body is available on request.

Croeso

Croeso i Ysgol Gymraeg Trefynwy. Agorwyd yr ysgol ym Mis Medi 2024 yn dilyn yr alw am dwf mewn addysg Gymraeg yn Sir Fynwy. Rydym wedi sefydlu yng nghanol gymuned Trefynwy ac yn rhannu safle gydag Ysgol Gynradd Overmonnow. Byddwn yn tyfu fel ysgol, wrth i'n plant tyfu.

Gweledigaeth ein hysgol ydy creu ethos ac awyrgylch ble mae croeso a chynhwysiad i bawb mewn amgylchedd Cymreig. Mae creu perthnasoedd positif gyda phlant yn allweddol er mwyn iddynt lwyddo a theimlo'n ddiogel. Anogwn ein disgyblion i ddatblygu annibyniaeth bersonol am ei hunain ac eraill gan gynnwys eu dysgu. Bydd ein cwricwlwm cynhwysol yn grymuso plant i ddatblygu sgiliau creadigol, a thanio'r chwilfrydedd at ddysgu.

Ymfalchïwn yng Nghymreictod a diwylliant ein hardal leol ac ymrwymwn i ennyn balchder yn yr iaith Gymraeg. Fel Ysgol Gymraeg pwysleisir meithrin gwybodaeth a deall o ddiwylliant Cymru a meistroli rhugled yn yr Iaith Gymraeg; mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o fywyd yr ysgol.

Credwn hefyd mai trwy feithrin cydweithrediad agos a chysylltiad ystyrlon rhwng y cartref a'r ysgol y medrir gwneud y gorau i'n plant. Bydd yna gyfleoedd i chi rannu yn addysg eich plant a byddwn ninnau o hyd ar gael i siarad â chi am unrhyw agwedd o'u datblygiad. Mae'r bartneriaeth yma yn un holl bwysig ac wrth gydweithio gyda'n gilydd gallwn roi cymorth i bob plentyn wneud y gorau o'i allu.

Welcome

Welcome to Ysgol Gymraeg Trefynwy. The school was opened in September 2024 following the demand for growth in Welsh education in Monmouthshire. We are based in the heart of the Monmouth community and share a site with Overmonnow Primary School. We will grow as a school, as our children grow.

Our school's vision is to create an ethos and atmosphere where everyone is welcome and included in a Welsh environment. Creating positive relationships with children is key for them to succeed and feel safe. We encourage our pupils to develop personal independence for themselves and others including their learning. Our inclusive curriculum will empower children to develop creative skills, and ignite curiosity for learning.

We are proud of Welshness and the culture of our local area and we are committed to instilling pride in the Welsh language. As a Welsh School, the emphasis is on fostering knowledge and understanding of Welsh culture and mastering fluency in the Welsh Language; bilingualism is an integral part of school life.

We also believe that it is by fostering close cooperation and a meaningful connection between home and school that we can do the best for our children. There will be opportunities for you to share in your children's education and we will be available to talk to you about any aspect of their development. This partnership is very important and by working together we can give support to each child to do the best of their ability.

GWELEDIGAETH

Mae Ysgol Gymraeg Trefynwy yn gyffrous i ffynnu fel cymuned ofalgar, gyd-ddibynnol sy'n falch o fod yn Gymraeg.

CENHADAETH

Rydym yn darparu addysg cyfrwng Cymraeg cyfannol sy'n canolbwyntio ar y plentyn.

GWERTHOEDD

Perthyn - Rydym yn perthyn i'r gymuned yma yn Nhrefynwy ac i gymuned ddiwylliannol ehangach Cymru.

Gofalu - Rydyn ni'n gofalu am ein hunain, ein gilydd, a'n hamgylchedd.

Ffynnu - Rydym yn ffynnu am ein bod yn barod i lwyddo.



VISION

Ysgol Gymraeg Trefynwy are excited to thrive as a caring, interdependent community that is proud to be Welsh.

MISSION

Ysgol Gymraeg Trefynwy provides a holistic Welsh-medium education that is child-centred.

VALUES

Belong - We belong to the community here in Monmouth and to the wider cultural community of Wales.

Care - We care about ourselves, each other, and our environment.

Thrive - We thrive because we are ready to succeed and are responsible for our own choices.

Iaith yr Ysgol

Er mwyn sicrhau dwyieithrwydd, ymdrochir y plant yn y Gymraeg yn unig hyd at flwyddyn 2. Wrth reswm, pan fo chysur a diogelwch y plentyn yn gofyn am hynny, fe ddefnyddir y Saesneg yn ystod y misoedd gyntaf ar ôl mynediad i'r ysgol. Ni ddysgir Saesneg tan Blwyddyn 3.

Profiant 'yr iaith ar waith' drwy gydol eu gyrfa yn yr ysgol ac, felly, deuant i fedru mynegi ystod eang o brofiadau a chysyniadau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae holl awyrgylch yr ysgol yn Gymreig ac y mae'n rhan o'n swyddogaeth i ddiogelu ffyniant y Cymreictod hwn a galluogi'r disgyblion i etifeddu treftadaeth werthfawr.

The Language of the School

We are a Welsh medium School, and in order to achieve bilingualism rapidly, the pupils on entry experience a completely Welsh environment. However, when the comfort and safety of the child demands it, English is used during the first few months. The English Language is not taught until Year 3 (age 7+).

They hear and use the Welsh Language through their life in the school and thereby they are able to express a great variety of experiences and concepts through the medium of Welsh. They become Welsh speakers. The whole atmosphere of the school is Welsh and it is our role to secure and enhance this Welshness so that the pupils are able to inherit a rich culture.

Oriau Ysgol/School Hours

Pawb/Everyone: 8.50yb – 2.55yp

Presenoldeb

Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar bresenoldeb uchel i bob dysgwr o'r cychwyn cyntaf.

Colli Ysgol – Colli Allan!

Mae'n bwysig sicrhau eich bod yn esbonio unrhyw absenoldeb drwy galwad ffôn neu lythyr. Heb y wybodaeth yma ni fydd yr ysgol yn gallu nodi os oedd yr absenoldeb gyda neu heb ganiatâd. Anelwn i sicrhau bod presenoldeb bob plentyn o leiaf 96% am fod pob diwrnod a gollir yn effeithio ar eu dysgu.

Os hoffech drefnu gwyliau bydd angen godi ffurflen caniatâd o'r swyddfa.

Byddwn ond yn caniatau absenoldeb gwyliau mewn amodau esgusodol.

Byddwn yn nodi bod plentyn yn hwyr ar ôl 9:10 y.b.

Attendance

We put a strong emphasis on high attendance from the very beginning.

Miss School – Miss Out!

It is important to explain any absences through a phone call or a letter. Without this required information the school will not be able to note if the absence is granted with or without permission. We aim to ensure that every child achieves at least 96% attendance, as every day lost impacts on the child's learning.

If would like to arrange a holiday you will need to collect and complete a holiday form from the office.

We will only authorise a holiday absence in extenuating circumstances.

We will mark a child as being late after 9:10 a.m.

Gwisg Ysgol

Siwmper/cardigan gwyrdd tywyll, crys polo gwyrdd (logo yn ddewisol), trowsus/ sgert/ siorts/ ffedog lwyd neu du yw'r wisg gydag esgidiau neu treiners du, sydd ar gael mewn nifer o lefydd. Mae ffrog haf gwyrdd a gwyn ar gael ar gyfer yr haf. Sannau/ teights gwyn/ du/ llwyd/gwyrdd tywyll plaen.

Gwisg Addysg Gorfforol

Crys-t neu crys polo gwyrdd gyda siorts/ legins llwyd neu du.

Gellir weld y polisi cyflanwn ar ein gwefan.

School Uniform

The School Uniform is Bottle green sweatshirt/cardigan, bottle green polo shirt (logos optional), grey or black trousers/ skirts/ shorts/ pinafore with black shoes or trainiers. These are available from a number of outlets. Green and white gingam dress is available for the summer months. Plain white/grey/black/bottle green socks/tights.

Physical Education Kit

The PE kit is a green T-shirt/polo shirt with black or grey shorts, joggers or leggings.

The full policy can be viewed on our website.

Cwricwlwm i Gymru

Chwe Maes Dysgu a Phrofiad

- Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu
- Datblygiad Mathemateg a Rhifedd
- Celfyddydau Mynegianol
- Dyniaethau /Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd
- Iechyd a LLes
- Gwyddoniaeth a Thechnoleg

Bydd eich plentyn yn cael mynediad at y meysydd dysgu a phrofiad yma trwy themâu a thestunau, gyda ffocws clir ar Llythrennedd, Rhifedd a TGCh gan ei wneud yn hwyl ac yn ystyrlon.

Y 4 Diben

Mae Datblygu'r 4 diben yn ran alleddol o phob profiad dysgu ac addysgu ar gyfer Ddyfodol llwyddiannus:

- Dysgwyr uchelgeisiol galluog
- Unigolion iach, hyderus
- Cyfranwyr mentrus creadigol
- Dinasyddion egwyddorol gwybodus

Byddwn yn rhannu profiadau dysgu trwy See-Saw a Google Classrooms yn gyson.



Curriculum for Wales

The Six Areas of Learning and Expereince

- Language, Literacy and Communication;
- Mathematics and Numeracy
- Expresive arts
- Humanites/ Knowledge and Understanding of the World;
- Health and Wellbeing
- Science and Technology

Your child will access these areas of learning and experience through themes and topics with a clear focus on Literacy, Numeracy and ICT, making learning enjoyable and meaningful.

The 4 core puproses

Developing the 4 core purposes for Successful futures is an integral part of all teaching and learning:

- Ambitious capable learners
- Health and Wellbeing
- Enterprisisng, creative contributors
- Ethical, informed citizens

We share a learning expreinces through See-Saw and Google Classrooms.



Addysg Perthynasoedd a Rhywioldeb

Mae'n orfodol i ddarparu Addysg pherthnasoedd a rhywioldeb i'r disgyblion. Fe wneir hynny yn y modd mwyaf sensitif gan gyflwyno'r wybodaeth sydd yn addas i oed y plant. Cyflwynir 3 llinyn ddysgu yn seiliedig ar ganllawiau Cwricwlwm i Gymru:

- perthnasoedd a hunaniaeth
- iechyd a lles rhywiol
- grymuso, diogelwch a pharch

Rydym yn dilyn cynlluniau Jigsaw Lles ar gyfer Addysg Bersonol a Chymdeithasol gan gynnwys Addysg Perthnasoedd a Rhywioldeb. Rhannwn trosolwg gyda rhieni pob hanner tymor. Mae athrawon yn ateb unrhyw gwestiynau â ofynnir gan y plant ar lefel addas. Yn ogystal, cyflwynir agweddau o Addysg Pherthnasoedd a Rhywioldeb trwy waith dosbarth wrth gyflwyno Gwyddoniaeth ac Addysg Iechyd a Lles.

Relationship and Sexuality Education

It is mandatory to provide Relationship and Sexuality Education to the pupils. This will be done in the most sensitive way, presenting the information that is suitable for the children's age. 3 learning strands are presented based on Curriculum for Wales guidelines:

- relationships and identity
- sexual health and well-being
- empowerment, safety and respect

We follow the Jigsaw PHSE programme for Personal, Social Education inclusing Relationship and sexuality education. We will share a parental overview of the themes every half term. Teachers answer any questions asked by the children at a suitable level. In addition, aspects of Relationships and Sexuality Education are presented through class work when presenting Science and Health and Wellbeing Education.

Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg (CGM)

Mae CGM yn ofyniad statudol yn y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer pob dysgwr rhwng 3 ac 16 oed. Bydd dysgwyr yn cael cyfleoedd i archwilio holl gysyniadau CGM trwy amrywiaeth o lensys a byddant yn archwilio pwysigrwydd perthynas CGM ag agweddau eraill ar fywyd, cymdeithas a'r byd. Bydd deall y cysyniad o grefydd yn galluogi dysgwyr i feithrin dealltwriaeth gyflawn o grefydd, ac arwyddocâd y gwahanol ffyrdd y caiff ei diffinio.

Nid yw CGM yn y cwricwlwm yn ymwneud â gwneud dysgwyr yn grefyddol neu'n anghrefyddol; mae'n rhaid i'w haddysgu felly hybu didwylledd, didueddrwydd a pharch at eraill trwy ddull gwrthrychol, beirniadol a lluosog.

Mae'r ysgol yn dilyn canllawiau AL 'Y Maes Llafur Cytûn'

Religion, Values and Ethics (RVE)

RVE is a statutory requirement in the Curriculum for Wales for all learners from age 3 to 16. Learners will have opportunities to explore all RVE concepts through a variety of lenses and will explore the importance of RVE's relationship with other aspects of life, society and the world. Understanding the concept of religion will enable learners to build a well-rounded understanding of religion, and the significance of the different ways that it is defined.

RVE in the curriculum is not about making learners religious or non-religious; its teaching therefore must promote openness, impartiality and respect for others through an objective, critical and pluralistic approach.

The school follows 'L.E.A's' guidelines 'The Agreed Syllabus'.

Addysg Gorfforol

Mae pob dosbarth yn derbyn cylfeoedd dyddiol i symud a chwarae yn gorfforol. Mae ein cyflesterau yn hyrwyddo profiadau diri a mwynhad pur i'n dysgwyr wrth ddatblygu eu sgiliau corfforol.

Caiff plant Blwyddyn 3 yr ysgol wersi nofio o dan ofal hyfforddwyr ac athrawon trwyddedig o'r Canolfan Hamdden lleol. Mae aelodau o staff yr ysgol wastad yn mynchu'r gwersi gyda'r disgyblion.

Cynhelir mabolgampau ysgol yn flynyddol ble fydd cyfle gan bob plentyn i brofi llwyddiant wrth redeg, sgipio, hercian a thaflu.

Physical Education

All children have daily opportunities to move and play physically. The school's facilities offer our learners many sporting experiences and pure enjoyment as they develop their physical skills.

Year 3 children receive swimming lessons at the local Sports Centre under the tuition of qualified instructors. A member of school staff always accompanies the children to their lessons.

The school sports day is held annually where every child has the opportunity to taste success in races, games and throwing activities.

Sut gallaf helpu fy mhlentyn?

Rydyn ni yn Ysgol Gymraeg Trefynwy yn croesawi'ch partneriaeth wrth gefnogi'ch plentyn ar eu taith drwy'r ysgol. Trwy gydweithio, gallwn osod seiliau ar gyfer dysgu gydol oes eich plentyn. Gallwch ddatblygu dysgu'ch plentyn ymhellach trwy ei atgyfnerthu gartref trwy chwarae gyda'ch plentyn, siarad am brofiadau, darllen pob mathau o brint er mwyn datblygu cariad at ddarllen ac annog annibyniaeth.

Gwerthfawrogwn bwysigrwydd y teulu, ac felly rhoddwn bwyslais mawr ar amser teuluol. Ar sail hwn, yn hytrach na darparu gwaith cartref ffurfiol, gofynnwn i chi rhoi profiadau teuluol hwyl i'ch plentyn.

Gofynnwn i chi ddarllen yn ddyddiol (ble'n bosibl) gyda'ch plentyn yn y Gymraeg a'r Saesneg (ac unrhyw iaith arall). Darparwn ddeunydd darllen rheolaidd er mwyn eich cefnogi i wneud hwn.

How can I help my child?

At Ysgol Gymraeg Trefynwy we welcome the partnership in supporting your child in their journey through the school. By working together, we can set strong foundations for your child to develop as a lifelong learner. You can help develop your child's learning through reinforcing skills at home through play, providing and talking about experiences, reading all kinds of texts in order to develop a love of reading and encourage independence.

We value the importance of the family, therefore, we place great emphasis on family time. On this basis, rather than providing formal homework, we ask you to give your child fun family experiences. We ask that you read daily (where possible) with your child in Welsh and English (and any other language). We provide regular reading material to support you in doing this.

Dosbarthiadau

O fis Medi 2025 ymlaen, bydd gennym ddau ddosbarth oedran cymysg yn Ysgol Gymraeg Trefynwy. Gan fod yr holl waith grŵp yn cael ei baratoi'n wahanol ac yn ofalus iawn, nid yw gwahaniaeth oedran o fewn dosbarthiadau yn anfantais. Rydym yn amrywio'r ffordd rydym yn grwpio plant o fewn dosbarthiadau yn ôl y dasg.

Classes

From September 2025, we will have two mixed-age classes at Ysgol Gymraeg Trefynwy. Since all group work is prepared differentially and with great care, age difference within classes are not a disadvantage. We vary the way we group children within classes according to the task.

Addysg Uwchradd

Yn y dyfodol bydd y plant yn trosglwyddo i Ysgol Gymraeg Gwynllyw ar gyfer eu haddysg Uwchradd. Bydd ymgynghori ac ymweliadau cyson rhwng y ddwy ysgol a'r clwstwr cyfan. Trefnir cyfarfodydd rhwng cynrychiolwyr o bob ysgol yn y clwstwr ag athrawon Ysgol Gymraeg Gwynllyw er mwyn sicrhau dilyniant ym mhob agwedd o'r cwricwlwm.

Secondary Education

In the furutre, children will progress from Ysgol Gymraeg Trefynwy to Ysgol Gymraeg Gwynllyw and arrangements will be made for consultation and visits between the two schools and the whole cluster. The representatives of the local cluster of Welsh School's meet regularly with staff from Ysgol Gymraeg Gwynllyw to ensure continuous development in each aspect of the curriculum.

Cydraddoldeb

Yr ydym yn ymdrin â phawb yn deg ac yn rhoi cyfle cyfartal i bawb beth bynnag yw lliw eu croen, eu cred, eu rhyw, eu hanabledd a'u safle cymdeithasol.

Disgwylir i'n rhieni rhannu'r un athroniaeth a'u bod yn annog eu plant i feithrin yr un gwerthoedd.

Yn y cyd-destun yma:

- Rydym yn rhoi cyfle teg i'n holl blant i dderbyn mynediad i'r cwricwlwm ac adnoddau'r ysgol
- Dydyn ni ddim yn grwpio plant yn ôl rhyw, er bod yn gallu digwydd o bryd i'w gilydd
- Rydyn ni'n darparu cyfleoedd 'di-ryw' i bob plentyn heb fod yn ystrydebol i rywioldeb.
- Rydyn yn cynllunio i sicrhau fod mynediad i'r ysgol ar gyfer unrhyw berson gydag anabledd yn hygyrch
- Rydym yn mwynhau'r cyfle i wahodd ymwelwyr o gefndiroedd gwahanol ac yn darparu cyfleoedd i'r plant profi ieithoedd a diwylliannau amrywiol
- Rydyn ni'n credu y dylai bob teulu gael mynediad cyfartal i'w plant i addysg Gymraeg
- Rydym yn sicrhau bod polisïau cydraddoldeb yr Awdurdod Addysg yn cael eu gweithredu wrth hysbysebu am swyddi o fewn yr ysgol.
- Mae gennym bolisi a chynllun wrth-tlodi i sicrhau bod disgyblion o dan fantais oherwydd tlodi yn derbyn mynediad teg i addysg a phrofiadau.

Equal Opportunities

We do not discriminate against anyone on the grounds of colour, creed, sex, disability or social position.

We expect our parents to share our philosophy and actively encourage our children to embrace these values:

In this context:

- We give all children equitable access to the curriculum and the facilities of the school
- We do not group children on the basis of sex but this can sometimes occur
- We provide a range of expreinces for all children without gender steryotyping
- We are planning to ensure that access to the whole school for persons with a disablity is accessible
- We are proud to welcome visitors to school from different backgrounds and give our children the opportunity to learn different languages and experience other cultures
- We believe that every family should have equal access to education through the medium of Welsh for their children
- We ensure that the equal opportunities policies of the Education Authority and the school are applied when jobs are advertised.
- We have an anti-poverty policy and plan to ensure that pupils disadvantaged by poverty receive equitable access to education and experiences.

Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)

Diffiniad:

Mae gan blentyn sydd o'r oedran ysgol stadudol neu berson sy'n hŷn na'r oedran hwnnw anhawster dysgu neu anabledd—

(a) os yw'n cael anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran, neu (b) os oes ganddo anabledd at ddibenion Deddf Cydraddoldeb 2010 sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag ddefnyddio cyfleusterau addysg neu hyfforddiant a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer eraill sydd o'r un oedran mewn ysgolion prif ffrwd a gynhelir neu sefydliadau prif ffrwd yn y sector addysg bellach.

Mae darpariaeth yr ysgol ar gyfer disgybion sydd ag ADY yn cydymffurfio'n llawn gyda deddfwriaeth Llywodraeth Cymru, ac yn elfen cryf yn ein hysgol.

Ymgynghorir a rhieni pob plentyn ag ADY wrth lunio rhaglen dysgu/ ymddygiad a'i gwerthuso.

Llywodraethwyr ac ADY

Y mae'r ddarpariaeth ar gyfer plant ADY yn rhan o gyfrifoldeb y llywodraethwyr. Bydd gan un ohonynt gyfrifoldeb am y ddarpariaeth.

Proffil Un Tudalen/Cynllun Gweithredu:

Mae gan bob plentyn â ADY Proffil Un Tudalen a/ neu Cynllun Gweithredu. Mae rhieni/ gofalwyr yn cael gwybod amdani ac yn rhan o'r broses o'i greu ac adolygu.

Darpariaeth:

- Cyffredinol - Mae amgylcheddau dysgu wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion pob plentyn a pherson ifanc, fel eu bod yn gallu gwneud cynnydd mewn dysgu a lles.

- Wedi'i thargedu - Mae gan weithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc wybodaeth a sgiliau priodol i fonitro'r anghenion penodol. Gallant weithredu yn unol â hynny os oes angen cymorth ychwanegol.
- Arbengol - Mae gan y plentyn neu'r person ifanc angen cymhleth sy'n golygu er mwyn diwallu angen a gwneud cynnydd, mae angen darpariaeth unigol arbenigol/penodol.

Cefnogi a hyrwyddo cyflawniad addysg plant sy'n derbyn gofal

Swyddog dynodedig plant mewn gofal (PMG) yr Ysgol yw Mrs Matthews (Pennaeth).

Mae'r ysgol yn cydweithio gyda asiantaethau allanol i gefnogi'r gwaith o gyflawni addysg plant sy'n derbyn gofal. Bydd gan bob plentyn sy'n derbyn gofal Gynllun Addysg Bersonol (CAP) er mwyn nodi meysydd o gefnogaeth ac unrhyw ofynion ychwanegol / cymorth a mynediad.

Additional Learning Needs (ALN)

Definition:

A child of compulsory school age or person over that age has a learning difficulty or disability if he or she—

(a) has a significantly greater difficulty in learning than the majority of others of the same age, or

(b) has a disability for the purposes of the Equality Act 2010 (c. 15) which prevents or hinders him or her from making use of facilities for education or training of a kind generally provided for others of the same age in mainstream maintained schools or mainstream institutions in the further education sector.

The school's providion for pupils with ALN complies fully with Welsh Government, legislation and is strong element of our school.

The school consults with the parents of pupils with ALN especially when designing a learning/ behaviour programme or evaluation of it.

Governing Body and ALN

The provision for pupils with ALN is the responsibility of the Governing Body. One member will be allocated as an ALN representative.

One Page Profile/Action Plan.

Each child with ALN has a One Page Profile and/ or an Action Plan. Parents/ carers are informed and take part in the developing and reviewing process.

Provision:

- Universal - Learning environments are tailored to meet the needs of all children and young people, so they are able to make progress in learning and well being
- Targeted - Professionals working with the child or young person have appropriate knowledge and skills to monitor the specific needs. They can act accordingly if additional help is needed

- Specialised - The child or young person has a complex need which means in order to meet need and make progress, specialised provision is required

Supporting and promoting the education achievement of Children looked after

The school designated Children Looked After (CLA) officer is Mrs Matthews (Head).

The school works proactively as part of a multi-agency team to support the education achievement of children who are looked after. Each child who is CLA will have a Personal Education Plan (PEP) in order to identify areas of support and any additional/ different support and access requirements.

Ymweliadau

Trefnir ymweliadau i blant fesul dosbarthiadau/ oedran. Pwrpas yr ymweliadau yw cyfoethogi profiad y disgyblion ac atgyfnerthu gweithgareddau dysgu. Gofynir i rieni i gyfrannu at gost teithiau addysgol. Pe na bai digon o gyfraniad gwirfoddol ni all y gweithgareddau ddigwydd.

Yr ydym yn gwneud asesiad risg o bob ymweliad ac yr ydym yn gofyn i chi lenwi slip er mwyn rhoi caniatâd i'ch plentyn chi ymuno ar yr ymweliad.

Educational Visits

All pupils enjoy class visits which are planned to enrich their lives and extend their class learning activities. Parents are asked to pay towards costs of educational visits. If there are insufficient payments, these activities cannot take place.

A risk assessment is made of every trip and we ask that you give permission so that your child can come on the trip.

Gweithgareddau Allgyrsiol

Wrth i'n plant a'n hysgol dyfu, rydym yn edrych ymlaen at allu rhoi cyfleoedd i ddisgyblion gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol, o glybiau ysgol, a gwersi cerddoriaeth i gymryd rhan mewn chwaraeon gyda'r Urdd a serennu ar y llwyfan.

Extra-Curricular Activities

As our children and school grow we look forward being able to provide pupils with opportunities to take part in a variety of extracurricular activities, from school clubs, and music lessons to taking part in sports with the Urdd and starring on stage.

Llais y Plant

Ymfalchiwn yn y cyfleoedd i ddysgwyr mynegi barn am eu diddordebau wrth gynllunio'r cwricwlwm, monitro safonau a gwella'r amgylchedd dysgu. Rydym yn gwerthfawrogi barn ein disgyblion wrth wneud penderfyniadau sy'n helpu'r ysgol i ddatblygu a ffynnu, ac edrychwn ymlaen at sefydlu ein Cyngor Ysgol, Cyngor Eco a Chriw Cymraeg, i gynnwys ein disgyblion ymhellach wrth gefnogi gwelliant yr ysgol.

The Voice of the Child

We are proud of the opportunities for pupils to voice their interests when planning the curriculum, monitoring standards and improving the school environment. We value the opinion of our pupils in making decisions that help the school to develop and thrive, and we look forward to establishing our School Council, Eco Council and Criw Cymraeg, to further involve our pupils in supporting school improvement.

Asesu

Asesir cynnydd y plentyn yn rheolaidd drwy gydol y flwyddyn. Yr ydym yn tracio datblygiad pob unigolyn o flwyddyn i flwyddyn. Trwy strategaethau 'Asesu ar gyfer Dysgu' anogwn y disgyblion i drafod a meddwl sut i wella eu gwaith, a gwaith cyfoedion. O'r cychwyn cyntaf rydym eisiau pob plentyn i gydnabod eu cryfderau ac ardaloedd i wella ac ar sail hyn, maent yn allweddol yn y broses o osod targedau a gwirio gwaith.

Assessment

We assess the children regularly throughout the year. We track the progress of each child from year to year. Through 'Assessment for Learning' strategies we encourage the children to discuss and think of how they can improve their work, and that of peers'. From the onset, we want every child to recognise their strengths and areas for improvement and on this basis, they are an essential part of setting targets for themselves and reviewing work.

Adroddiad i Rieni/ Gwarchodwyr

Gwahoddir chi deirgwaith y flwyddyn i gwrdd ag athro eich plentyn er mwyn trafod ei g/chynnydd. Cytunwn ar, a rhenir targedau unigol y plentyn yn dymhorol. Gall rhieni/ gofalwyr wneud trefniadau gyda'r Pennaeth ar unrhyw amser arall i ddod i'r ysgol i drafod addysg eu plentyn gyda'u hathro/awes pan fo'r angen. Rhoddir adroddiad ysgrifenedig i'r rhieni/gofalwyr ar ddiwedd y flwyddyn addysgol.

Reporting to Parents/ Carers

You will be invited to school three times a year to discuss your child's progress with his/her teacher. We agree and share the child's personal targets termly. Any parent/ carer wishing to have further discussions on this matter at any other time of the year can make arrangements with the Headteacher if needed. A written report will be given to parents/carers at the end of the academic year.

Meddyginiaeth

Bydd angen cynllun gofal ar gyfer plant sydd ag asthma, alergeddau neu anghenion meddygol hirdymor eraill, wedi'i greu ar y cyd â gwasanaethau iechyd a rhieni/ gofalwyr, er mwyn i unrhyw feddyginiaeth gael ei chadw a'i chymryd yn yr ysgol. Siaradwch â swyddfa'r ysgol gydag unrhyw gwestiynau ynghylch meddyginiaeth bresgripsiwn tymor byr.

Medication

Children with asthma, allergies or other long-term medical needs will need a care plan created in conjunction with health services and parents/ carers in order for any medication to be kept and taken in school. Please speak to the school office with questions regarding short-term prescription medication.

Cinio

Mae llywodraeth Cymru yn darparu cinio ysgol yn rhad ac am ddim i bob plentyn ysgol Gynradd. Mae bwydlenni ar gael ar wefannau'r ysgol a'r Cyngor Sir. Rydym yn defnyddio ParentPay i archebu cinio, mae rhagor o fanylion ar ein gwefan.

Brechdanau/Bocs bwyd

Mae croeso i chi roi bocs bwyd i'ch plentyn yn lle cinio ysgol ond gofynnwn i chi ystyried pwysigrwydd diet cytbwys. Y mae'n angenrheidiol i gynnig ffrwyth, diod iach yn ogystal â brechdan ayyb. Gofynnwn i chi ddarparu dim mwyn nag 1 'melysen' a chreision yn unig neu bydd y plant yn anghofio bwyta'r frechdan os oes gormod o 'treats' yn y bocs. Ni chaniateir diodydd ffisi/ egni.

Yn ystod y gaeaf, gellir darparu bwyd cynnes mewn fflasg, ond cyfrifoldeb y rhiant/ gofalwr yw hi i sicrhau tymheredd addas i fwyta.

Llaeth/ byrbryd

Yr ydym yn cynnig llaeth yn ddyddiol i blant y Meithrin i Flwyddyn 2. Gofynnwn i rieni/ gofalwyr ddarparu potel yfed ailddefnydd gyda dŵr yn unig a darn o ffrwyth fel byrbryd yn ddyddiol. Ni chaniateir unrhyw byrbryd arall. Rydym yn annog bwyta'n iach!

School Lunch

Welsh Government provides free school lunches for all Primary school children. Menus are available on the school and Local Authority websites. We use ParentPay to order lunches in advance, further information is available on our website.

Sandwiches/Packed lunch

You are welcome to give your children a packed lunch instead of school dinners but we ask that you consider the importance of a balanced diet. It is essential that you provide fruit, a healthy drink as well as sandwiches etc. We request that you provide no more than 1 treat and 1 packet of crisps as the children tend to forget to eat their sandwiches if they have too many treats. No fizzy or energy drinks are allowed.

During the winter months, you can provide warm foods in a flask, however it is the paret/carer's responsibility to ensure the food is a suitable temperature to eat.

Milk/Snack

We provide milk to Meithrin to Year 2 pupils on a daily basis. We request that parents/ carers provide a piece of fruit daily as a snack and a refillable drink bottle with water only. No other snacks are permitted. We promote eating healthily!

Grant Hanfodion Ysgol

Mae hawl gan deuluoedd ar gyflog isel i dderbyn grant Hanfodion Ysgol sydd yn cynnwys grant gwisg ysgol. Mae'r ysgol hefyd, yn derbyn grant i gefnogi tegwch mewn addysg.

School Essential Grant

Families with a low income have the right to acces a School Essentials grant including school uniform grant. The school will also receive a grant to support equity in education.

Clwb Brecwast & Clwb Carco

Gall disgyblion gael mynediad i'r clwb brecwast ar y safle, a gynhelir gan Ysgol Gynradd Overmonnow o 8:10yb – 8:50yb bob dydd. Mae Clwb Brecwast yn costio £2 y disgybl y dydd cyn 8.30 yb, nid oes cost ar ôl 8.30 yb.

Mae clwb gofal ar ôl ysgol hefyd tan 5:00yp (5.30yp trwy drefniant ymlaen llaw) o ddydd Llun i ddydd Iau i ddisgyblion o ddosbarth Meithrin i fyny. Mae cost o £11/£12 y sesiwn. Cynigir byrbryd iach ynghyd ag amrywiaeth o weithgareddau. Mae hwn yn cael ei redeg gan Celyn Childcare, y gellir cysylltu â nhw drwy e-bost celynchildcare@gmail.com

Breakfast & After-School Club

Pupils can access the breakfast club on site, run by Overmonnow Primary from 8:10 – 8:50 a.m daily. Breakfast Clubs costs £2 per pupil per day before 8.30am, attendance is free after 8.30am.

There is also an after-school care club until 5:00pm (5.30pm by prior arrangement) from Monday to Thursday for pupils from Meithrin class upwards. There is a cost of £11/£12 per session. A healthy snack is offered along with a variety of activities. This is run by Celyn Childcare, who can be contacted via email celynchildcare@gmail.com

Archwilio a derbyn copïau o ddogfennau

Mae'r prif ddogfennau ar gael yn yr ysgol i'w harchwilio gan lywodraethwyr a rhieni/ gofalwyr a cheir rhai ar wefan yr Ysgol www.ygolgymraegtrefynwy.cymru

- Polisi Diogelu plant
- Unrhyw adroddiadau gan arolygwyr sy'n cyfeirio at yr ysgol
- Trefniadau cwyno
- Adroddiad blynyddol diweddaraf y Bwrdd Llywodraethol i'r rhieni

Codir tal am gopiau papur o'r dogfennau hyn.

Viewing and Receiving Copies of Documents

The main documents are available for examination at the school by governors and parents and some are on the school wedsite www.ygolgymraegtrefynwy.cymru

1. Safeguarding policy
2. Any Inspectors report which refers to the school
3. Complaints procedure.
4. The latest annual report of the 'Governing Body'.

A charge will be levied whenever a paper copy of any of these documents is requested.

Cludiant

Os yw eich plentyn yn byw mwy na dwy filltir o'r ysgol ac o fewn dalgylch yr ysgol, mae cludiant am ddim yn cael ei ddarparu gan Gyngor Sir Fynwy. Am ymholiadau, cysylltwch ag adran Cludiant Teithwyr Cyngor Sir Fynwy ar 01633 644777.

Transport

If your child lives more than two miles from school and within school catchment, free transport is provided by Monmouthshire County Council. For queries please contact the Passenger Transport dept in Monmouthshire County Council on 01633 644777.

monmouthshire
sir fynwy

Ymateb i gwynion

Rydym yn ymfalchïo yn y berthynas dda sydd rhwng yr ysgol a'n rhieni ac yn ymdrechu'n galed i'w gynnal a'i gwella. Mae gennym bolisi drws agored sy'n golygu bod croeso i riant/gofalwr ddod i drafod unrhyw fater gyda ni ar ôl trefnu apwyntiad trwy alwad ffôn neu lythyr. Mae hawl gan rieni/ gofalwyr i drefnu apwyntiad i weld polisïau'r ysgol.

Os oes gan riant/ gofalwr pryder neu gŵyn ble nad yw'r athro/athrawes dosbarth wedi llwyddo i ddatrys dylid ysgrifennu/ cysylltu gyda'r Pennaeth.

Os byddwch yn anhapus gyda phenderfyniad y Pennaeth ar y mater gellir cysylltu â'r corff llywodraethol. Rhaid gwneud hyn yn ysgrifenedig. Os oes dal pryder ar ôl hwn, gellir cyfeirio'r mater at yr 'Awdurdod Addysg'. Mae polisi ymateb i gwynion ar gael ar ein gwefan neu gellir gofyn am gopi o'r ysgol.

Y Cyfarwyddwr Addysg, Cyngor Sir Fynwy Neuadd y Sir, Y Rhadyr Brynbuga Sir Fynwy NP15 1GA	Director of Education, Monmouthshire County Council County Hall, Rhadyr Usk Monmouthshire NP15 1GA

Responding to Complaints

We are proud of our relationship with parents and go to great lengths to maintain good lines of communication. We have an open-door policy which means that should a parent/carer need to discuss any matter a mutually agreed time can be arranged by telephoning or writing to the school. Parents/ carers can also make an appointment to see school policies.

If any parent/ carer has a concern or complaint that has not been resolved by the class teacher, an appointment should be arranged with the Headteacher.

If you are not satisfied with the Headteacher's decision regarding the matter, it can be referred to the 'Governing Body'. This must be done in writing. If the issue cannot be resolved following this, the matter can be referred to the 'Education Authority'. We have a dealing with complaints policy wich is available on our website or you can contact the school for a copy.

Polisi Mynediad i Ysgol Gymraeg Trefynwy

Mae croeso i deuluoedd sydd â diddordeb yn yr Ysgol i drefnu apwyntiad i ymweld â'r ysgol, nid yn unig i siarad â'r pennaeth ac athrawon, ond hefyd i brofi awyrgylch weithiol yr ysgol. Yr Awdurdod Lleol sy'n penderfynu pa ddysgwyr sy'n cael mynediad i'r ysgol yn unol â'i Pholisi Mynediad i'r Ysgol.

Caiff plant 3 oed a throsodd eu derbyn i'n Dosbarth Meithrin ar ddechrau'r tymor ar ôl iddynt droi yn bedair oed. Mae'r plant ifanc yma yn cychwyn ar eu taith addysgol mewn grwpiau bach, dros ychydig o ddyddiau er mwyn sicrhau eu hapusrwydd yn y broses o symud oddi wrth eu rhieni i mewn i freichiau'r ysgol.

Mae croeso i rieni/ gofalwyr ymweld â'r ysgol mewn cyfarfodydd ffurfiol ac anffurfiol i drafod addysg eu plant.

Gellir drefnu derbyn plant i ddosbarthiadau hŷn ar unrhyw adeg a gofynnir i'r rhieni gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sir Fynwy i drefnu lle/ trosglwyddo.

Mynediad Ysgolion: 01633 644508 neu accesstolearning@monmouthshire.gov.uk

Tŷ bach – Mae rhaid bod y plentyn wedi i hyfforddi i ddefnyddio'r tŷ bach yn annibynnol gan gynnwys sychu ei hunan cyn cychwyn ysgol oni bai bod achos meddygol sydd yn rwystro hwn.

Admission policy to Ysgol Gymraeg Trefynwy

Prospective families are welcome to contact the school to arrange a visit during school hours, not only to see the headteacher and staff, but also to sample the working atmosphere of the school. The Local Authority makes any decision on admissions to the school based on its admission policy.

Children aged 3+ are admitted to our Nursery Class in the term after their third birthday. Children commence school in a phased and staggered way, in order to ensure their happiness in the process of transferring from the home to school.

Parents/ carers are always welcome to make an appointment to discuss their child's progress through the head teacher.

Admission for older classes can be arranged at any time and parents are asked to contact Monmouthshire County Council request a placement/ transfer.

School and Student Access Unit: 01633 644508 **or** accesstolearning@monmouthshire.gov.uk

Toileting – The child must be fully toilet trainied and able to use the toilet independently as well as wiping themselves before starting school unless a medical condition prevents this.

Dyddiadau tymor Ysgol /School term dates

Tymor yr Hydref /Autumn Term 2025

- Term starts Monday 1 September 2025
- Half term starts Monday 27 October 2025
- Half term ends Friday 31 October 2025
- Term ends Friday 19 December 2025

Tymor y Gwanwyn/ Spring Term 2026

- Term starts Monday 5 January 2026
- Half term starts Monday 16 February 2026
- Half term ends Friday 20 February 2026
- Term ends Friday 27 March 2026

Tymor yr Haf/ Summer Term 2026

- Term starts Monday 13 April 2026
- Half term starts Monday 25 May 2026
- Half term ends Friday 29 May 2026
- Term ends Monday 20 July 2026

Yn ogystal â hyn, bydd yr ysgol yn cau am **chwe** diwrnod arall ar gyfer hyfforddiant mewn swydd i'r staff. Cewch wybod am y rhain mor gynted ag y penodwyd. Mae'r calendr hwn yn cwrdd â gofynion statudol o 195 o ddiwrnodau, gan gynnwys 189 gyda'r disgyblion yn bresennol a chwe diwrnod ar gyfer hyfforddiant mewn swydd.

Gofynnwn yn garedig i chi gymryd unrhyw wyliau yn ystod gwyliau ysgol er mwyn osgoi effeithio ar addysg eich plentyn.

In addition to this, school will close for **six** other days for In Service Training purposes (INSET days). You will be informed of these as soon as they are set. This calender meets with statutory regulations of 195 days, including 189 with pupils in attendance and six training days.

We kindly ask you to take any holidays during school holiday time to avoid any negative effect on your child's learning.

Rheolau Pwysig i'w cofio

Mae disgwyl i bawb sy'n dod i Ysgol Gymraeg Trefynwy bod yn ofalgar a pharchus ar bob achlysur.

- Gymraeg yw iaith yr ysgol hon, ac rydym yn disgwyl ein plant i siarad Cymraeg ar bob achlysur, ar wahân i wersi Saesneg.
- Ni chaniateir tlysau heb law am 1 set o stŷds yn y clust yn yr ysgol. Mae'n bosib iawn eu colli, ond yn bwysicach fyth, mae damweiniau yn gallu digwydd, yn enwedig mewn addysg gorfforol neu ar yr iard.
- Ni chaniateir losin o unrhyw fath ar gyfer byrbryd neu mewn bocs bwyd.

- Os yw plant yn dod i'r ysgol ar un o'r bysiau rydyn yn disgwyl ymddygiad gweddus wrth y plant wrth iddynt deithio. Gofynnwn am gefnogaeth ein rhieni/ gofalwyr mewn hyn o beth.
- Ni chaniateir bwlian o unrhyw fath yn yr ysgol. Gweler ein polisi perthnasoedd ac ymddygiad /wrth-fwlio.
- Ni chaniateir plant i wisgo colur i'r ysgol a disgwylir i bawb wisgo'r wisg ysgol gywir
- Ni chaniateir i ddisgyblion dod a ffôn symudol nag oriawr smart i'r ysgol

Important rules to remember

- Everyone who attends Ysgol Gymraeg Trefynwy is expected to show kindness and respect at all times.
- Welsh is the language of this school, and we expect the children to speak Welsh on all occasions.
- Jewellery of any description is not allowed in school exept for 1 set of studs in the ears. It is very easy for a child to lose items, but, more importantly, it can cause accidents, especially during PE and games or playing on the yard.
- No sweets of any kind are allowed as a snack or in lunch boxes.
- If children travel to and from school on one of the buses, we expect appropriate behaviour from them whilst travelling. We ask for parents'/ carers' support in this matter.
- Bullying of any sort is not acceptable - please see our policy document on relationships and behaviour and anti-bullying.
- Pupils are not permitted to wear makeup to school and they are expected to wear the correct school uniform
- Pupils are not permitted to bring mobile phones or smart watches to school

Diogelwch yn yr Ysgol

Mae gan yr ysgol system diogelwch er mwyn sicrhau diogelwch pawb. Bydd mynediad i ymwelwyr i'r adeiladau drwy brif fynedfa'r ysgol. Mae hwn yn cael ei reoli gan declyn trydanol. Mae cloeon trydanol ar ddrysau y dosbarthiadau allanol. Gofynnwn yn garedig i bob rhiant/ gofalwr, os ydynt am ddod i'r Ysgol, i wneud apwyntiad o flaen llaw.

Mewn argyfwng a wnewch chi ffonio'r ysgol cyn cyrraedd i esbonio'r sefyllfa. Rydym wedi penderfynu cymryd y camau yma er mwyn diogelu eich plant.

Gofynnwn i chi barchu'r rheolau yma er lles y plant a'r oedolion sy'n gweithio yn Ysgol Gymraeg Trefynwy.

NID YW'N BOSIB I FYND I MEWN I'R DOSBARTHIADAU HEB WNEUD APWYNTIAD O FLAEN LLAW GYDA'R PENNAETH

Safety in the school

We have installed a security system in the school for the safety of all concerned. The only means of entry for visitors to the main building will by via the main school door, where you will be asked to sign in. This is regulated by an electronic intercom system. The outside classrooms are also fitted with an electrical locking system. We ask all parents to make an appointment beforehand if they need to visit the school.

In an emergency please phone the school before coming to explain the situation.

We have decided to take these steps in order to safeguard your children. Please can we ask you to follow these guidelines for the well-being of the children and adults who work in Ysgol Gymraeg Trefynwy.

IT IS NOT BE POSSIBLE TO GO INTO ANY OF THE CLASSROOMS WITHOUT FIRST MAKING AN APPOINTMENT WITH THE HEADTEACHER.